Cyfres Llanbedr | Gorffennaf, 1926. | Cyf. 26. Rhif 7.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd — Y Parch T. Oswald Williams

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
DYLANWAD CERDDORIAETH.
Y DEML. HWNT I'R LLEN.
Y GYMANFA GANU.
CAERONNEN. YR ARHOLIAD.
CYMANFA GANU SIR FORGANWG
PRIODAS. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—
Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Geiriadur Beiblaidd

Y Gwaith Pwysicaf ar y Beibl
a Gyhoeddwyd yn Gymraeg.

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.
Pris 1/6 y Rhifyn.

I'w gael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-.; Drwy'r Post, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

.. Yr Ymofynnydd. ..

Cyfres Llanbedr. GORFFENNAF, 1926. Cyf. XXVI. Rhif 7.

NODION Y GOLYGYDD.

" Whom God loveth not, they love not music."

NI wn a ydyw'r safon hon yn gywir a'i peidio ond gwn fod rhyw ddylanwad anesboniadwy gan fiwsig ar galon dyn. Myn Eluned yn " Nringo'r Andes " i ddylanwad Canu Cymraeg ddofi llid y brodorion sychedig am waed a gwyddom fod ambell gân yn mynd adref i'r galon. Y mae'r genedl wedi canu ar hyd y blynyddoedd a chredaf fod " Caniadaeth y Cysegr " wedi cael sylw gennym a naturiol yw ymfalchio yn llwyddiant y Gymanfa Ganu flwyddyn ar ol blwyddyn. Cofia rhywrai'r Gymanfa Gyntaf yng Nghapelygroes dan arweiniad y diweddar Mr. John Lloyd, Pantywilco, a diddorol oedd gwrando yn Llanbedr atgofion un a fu'n y Gymanfa Gyntaf.

" Y Gymanfa Ganu." Y mae angau wedi galw yr hen Arweinydd a'r mwyafrif o'i gor adref ers llawer dydd ond erys Ysbryd y Gân yn fyw. Ni phasiaf farn ar y tonau. Ni fedraf, ond yr oedd rhywbeth yn eisiau ar Emynau'r Plant. Ni ddywedaf hyn i gondemnio neb ond credaf y dylesid bod ychydig yn fwy gwyliadwrus wrth ddewis yr emynau. Medrai'r Pwyllgor gyfarfod yn gynt er rhoddi chwareu teg i ni gael golwg ar a geisir gennym ganu. Oni byddo'r emyn yn fynegiant o brofiad gonest ein calon, ni chenir mohono fel y dylesid. Erys darn o emyn yn hir yn y côf ac y mae wedi goleuo'r blin tua thref lawer adeg ond gofaler rhag i ni fradu egwyddor wrth borthi difaterwch a diogi.

* * *

Ni flinir y genhedlaeth hon eto gan adeiladu. Y mae'r oll o'n capeli yn newydd neu wedi'u hadnewyddu'n gymharol ddiweddar fel y gallwn wynebu'r dyfodol yn ffyddiog. Caeronnen ond odid oedd y gwaelaf ac y mae yntau erbyn hyn wedi croesi mynydd

y gweddnewidiad. Y mae'n rhaid bod yn sicr cyn defnyddio'r termau yma. Ffromai'r hen weinidogion o glywed son am *gysegru* ac ail agor ac yn y blaen.

Capel Caeronnen

Y mae iddo hen, hen hanes—ac a'n ol i'r cyfnod cynnar, cyfnod y Presbyteriaid cyn i'r Diwygiad Methodistaidd ddyfod i wneuthur hafog ar yr Anghydffurfwyr. Y mae yn agos i dri chan mlynedd er i Rees Powell ac eraill bregethu Anghydffurfiaeth yng Nghellan. Bu amryw o "wyr y ddwyfil" yn pregethu yma a medrai'r hen bulpud ddywedyd llawer am y culni a'r erlid. Y mae'r cyfan drosodd ers llawer dydd a noda'r dyddiau 1654, 1747, 1846, 1925 gwrs ei ddatblygiad. Yn 1654 nid oedd y gynulleidfa ond anghydffurfiol yn gofyn dim ond am ryddid i addoli Duw. Erbyn adeiladu'r ail gapel yn 1747, y mae'r gynulleidfa'n datblygu ar hyd llinellau Arminaidd ac Ariaidd. Dyma gyfnod Philip Pugh a'i gydlafurwyr. Erbyn codi y trydydd Capel yn 1846 y mae'r gynulleidfa wedi ennill ei ffordd i Undodiaeth. Nid oes enw namyn Capel Caeronnen wedi bod arno ac yng ngeiriau Beard gynt, gwrthyd gymryd ei ddosbarthu a'i nodi fel "jam-pot" neu "pill-box."

* * *

Y mae'n capeli'n newydd ond a oes gennym genadwri newydd? Pwy ddydd darllenwn am Gynhadledd y Wesleyaid ar "addysgu Gweinidogion." Y mae'n sefyllfa ni'n fwy gresynus. Nid oes gennym weinidogion i'w haddysgu ac y mae'r sefyllfa'n *tragic*. Mynnai'r Wesleyaid estyn hyd y cwrs colegol er eangu meddwl. Cwynid fod y corau o flaen y pulpud ym myd gwyddor. Dau gwyn mawr yn erbyn y pulpud yw "*hen bregethau*" a "*out-of-date*."

Y mae'r cyfnewid bob tair blynedd yn ffafriol i "Hen Bregethau." Ni ddywedir nad oes ambell hen bregeth yn werth ei hail bregethu ac fel gwin yn gwella wrth ei chadw. Ond y gŵyn yw fod "hen bregethau" yn magu difaterwch a diogi. Onid oes eisiau pregeth newydd, ni ddarllenir a thrwy hynny crapachir y meddwl. Cwyn gyffredin yw *fod gormod o hela hen ysgyfarnogod ar y Sul*.

Ymhellach dywedir fod llawer plentyn o'r Ysgol Sir yn gwybod mwy am wyddor na'r gweinidog. Oherwydd hyn collir *touch* a'r dô sydd yn codi. Ni ddywedaf fod gwyddor yn holl bwysig ond y mae ambell esboniad a roir heb son am gernodio'r wybodaeth newydd yn faen tramgwydd i lawer.

Y mae'n rhaid cael y goreu i'r pulpud, a'r goreu o'r pulpud cyn llwyddo o'r Efengyl.

DYLANWAD CERDDORIAETH YNG NGOLEU'R FEDDYLEG NEWYDD.

Papur a ddarllenwyd yn y Gymanfa Ganu.

Rhoddir sylw mawr y dyddiau hyn i ddylanwad meddwl, teimlad a dymuniad ar fywyd. Y mae math ar orffennol y tu ol i bob gweithred, ac y mae pob gweithred ddyfodol yn deillio ohoni.

Y mae dylanwad galluoedd cyfrin ac anweledig y teimlad a'r dymuniad ar y meddwl, a'r meddwl ar fywyd yn fwy sylweddol na dim arall.

Yr oedd y doethion a'r deallus yr oesoedd a fu wedi canfod y gwirioneddau hyn, ac yr ydym ninnau yn yr oes hon fel pe buasem ar drothwy'r eigion yn pigo i fyny ambell berl gwerthfawr y sydd wedi cael ei dreiglo i lawr i ni trwy'r oesoedd. "Fel y meddylia dyn yn ei galon, felly y bydd efe." Nid yn unig y mae meddyliau dyn yn gwau i fyny ei gymeriad a'i dynged, ond taflant hefyd ei *vibrations* i'r byd o'r tu allan, gan effeithio ar feddyliau ereill. Trwy daro tant crwth neu delyn cymer tant o gyffelyb natur *vibrations* y sain i fyny megis mewn cydymdeimlad. Felly yn union ym myd y meddwl a'r teimlad. Os yw cwrs meddwl unrhyw berson yn cyfeirio at yr ochr dywyll, y galarus, yr ofnus, a'r trist bydd holl gwrs ei fywyd i'r un cyfeiriad. Ym mhellach effeithia i raddau ar bawb a ddaw i gyffyrddiad ag ef. Ar y llaw arall, o bydd meddwl dyn ar y disglair, y da, y pur, a'r cryf, gwelir hyn yn amlwg yn symudiad iachus a grymus ei fywyd, a theifl belydrau bywiol ac iachus ar bawb o'i gwmpas.

Dywedir fod lliw prydferth rhosyn yr haf ar feddyliau o gariad a hunanymwadiad a gwasanaeth i eraill. Lle bynnag y mae cynghanedd a mydr y mae prydferthwch, tangnefedd, a chariad yn llywyddu. Ar y llaw arall cynhyrcha meddyliau trist a lleddf anghytgord, hagrwch ac afiechyd ar bob llaw. Y mae felly yng ngallu dyn i ddewis a gwrthod. Medr fod yn feistr neu yn gaethwas i'r graddau y mae y teimlad a'r meddwl o dan ddisgyblaeth. Rhodder tywod ar y berdoneg a ffurfiant eu hunain yn batrymau prydferth pan genir rhyw ddarn o gerddoriaeth swynol, prydferth ac ysbrydoledig ar yr offeryn Yn gyffelyb effeithia cerddoriaeth ar feddwl a theimlad dyn ac anifail. Cyffroir tannau'r delyn sydd y tu fewn i bob bywyd ac y maent yn *respondo* i'r neges fydd gan y gerddoriaeth. Gwefreiddir y teimlad gan y gerddoriaeth yn fwy felly na thrwy unrhyw gyfrwng arall. Y mae cerddoriaeth wladgarol yn tanio'r galon a chariad dros wlad.

Cynhyrfa yr ymdeithgan ryfelgar alluoedd o ddewrder a hunanymwadiad i ymladd dros ryddid a gwirionedd. Y mae rythm a melodi y *waltz* yn cael atebiad buan yn osgo a mynegiant y ddawns. Tawela cerddoriaeth felys a swynol y galon drist. Y mae gwir ganiadaeth gysegredig yn rhoddi i ni nerth a ffydd i ddringo rhiwiau serth. Rhydd gysur a mwyniant a thangnefedd parhaol gan ddwyn dyn a Duw wyneb yn wyneb.

I mi, ynteu, prif amcan y Gymanfa Ganu yw trwytho ein bywydau a'r meddyliau goreu sydd yn ein hemynau a thonau fel y byddont yn arogl bywyd i fywyd gan ein galluogi i deimlo gwres cariad y Tad yn ein mynwesau.

Y mae yn gofyn deall a llygad ffydd i ddewis emynau a thonau i'w canu yn ein heglwysi a'n cymanfaoedd os am gael yr effaith priodol arnom. Rhaid mynegi meddyliau yr emyn yn briodol a chael ieuad hapus rhwng tôn ac emyn. Tybed a yw'r ysbryd Piwritanaidd wedi bod yn rhy

amlwg yn newisiad rhai o'n tonau yn ddiweddar. Y mae gennyf syniad uchel am lawer o nodweddion y Piwritan, ond rhaid cofio y daliai'n gyndyn nad oedd hapusrwydd llawenydd, prydferthwch a cherddoriaeth nwyfus yn cydfyned a'i syniad o'r hyn oedd yn gwneuthur i fyny y bywyd crefyddol.

Yn wyneb y ffeithiau a nodais, a yw yn bosibl ein bod fel cyfan-gorff a Chymru benbaladr o ran hynny wedi dewis gormod o'r cyweirnod *wrong*—y trist a'r lleddf yn ein mawl, a bod ei ddylanwad ar ein heglwysi y dyddiau hyn yn rhy amlwg? Gwell gennyf linellau y Salmydd—clodfori, gorfoleddu a llawenychu oedd pwnc mawr ei genadwri ef. Ysbryd yw Duw, a disgleiria fel yr haul. Disgleirdeb, goleuni, harddwch a welir yn tywynnu ar bob llaw, ac amcan crefydd a cherddoriaeth fel ei llawforwyn yw *harmoniso* bywyd a'i ddwyn i gytgord a'r Anfeidrol ei hun, Tad pob goleuni. "To tune our souls with the Infinite power of good and life." Y mae eisiau mwy o'r weddi, yr erfyn, y mawl a'r diolch oddiwrthym. Os lleddf, nid lleddf heb obaith am anfarwoldeb i'n heneidiau, cofier! Y mae gan yr emyn a'r don, yr anthem a'r chorus a gweithiau clasurol y meistri celf eu neges a'u dylanwad ar feddyliau a bywyd yr oes, o bosibl yn fwy felly na'r sylw a roi'r iddynt gan lawer.

Dywedir am Haydn pan gyfansoddai ei "Creation" ei fod ar ei liniau yn gofyn am yr arweiniad dwyfol drwy ei waith. Fe erys ei waith felly am dragwyddoldeb yn ysbrydoliaeth i filiynnau heb ei geni eto. "Worlds unborn shall sing His glory." Y mae hynyna yn wir am Handel yn ei "Feseia," a chredaf ei fod yn wir am lawer i Gymro pan gyfansodda rai o emynau a thonau goreu ein cenedl.

Yr ysbrydoliaeth hwn sydd yn gosod caniadaeth y cysegr ar ei phen ei hun. "The mysterious language of a remote spiritual realm," meddai Hoffman.

"The harbinger of Eternal melody" (Mozart.)

"The handmaid of Religion."

"Rouses the soul to fearless deeds of daring and valour." (Acton).

Dewiswn y goreu yn ein haddoliad. Peidier a gwrthod ysbrydoliaeth tôn dda oherwydd ei bod yn gofyn ychydig o ymgais a llafur i'w dysgu. Rhodder yr un sylw a'r training i ymbaratoi gogyfer a chaniadaeth y cysegr ag a roddir i'r Eisteddfod, a dywedaf ym mhellach cadwer y don gysegredig yn ei lle priodol. Chwi ddynion ieuainc a chanol oed cymerwch fwy o ddiddordeb yn y gân. Bydded i'r arfer o ganu ar yr aelwyd gartref, yn y siop waith, ac ar y maes ddod yn ol eto dros Gymru.

Y mae Natur yn fyw mewn cân. Beth am yr hedd sydd i'w gael wrth wrando ar yr ehedydd a'r fwyalchen ar doriad dydd. Y maent i mi yn engyl i gyfeirio ein meddyliau at y goreu mewn bywyd.

Earth were such a glorious place
Full of kindliness and grace.;
If instead of preaching duty,
We would sing the love of beauty;
If no more of creed divide us
God himself would walk beside us.

Pan godir at waith y dydd caner,—

Mae'r byd i mi yn hyfryd a llawn o nefol swyn,
Ar haul yn ymddisgleirio ar bopeth imi'n fwyn;
Mi wn caf fod yn ddedwydd a mi'n y byd yn byw,
A chanlyn wnaf yr Iesu fy hoff arweinydd yw.

Pleser mawr i mi y dydd o'r blaen yng Nghymanfa y Bedyddwyr yng Ngheinewydd oedd clywed y plant yn canu:—

"Pe bawn i yn seren fach siriol dlos,
Mi geisiwn y llwybrau serth;
Y llwybrau tywyllaf geir yn y nos,
A goleuwn a'm holl nerth.
Ac er na allaf fod yn haul
Na lloer i lonni'r byd,
Mi geisiwn sirioli y trist a'r gwael,
A disgleirio wnawn o hyd.

O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi,
Daeth Iesu i'm calon i fyw;

Torrodd gwawr ar fy enaid, atebwyd fy nghri,
Daeth Iesu i'm calon i fyw ;
Cwyd llawenydd fy mron megis *ton* ar ol *ton*,
Daeth Iesu i'm calon i fyw.

Onid yw y syniadau hyn am fywyd yn fwy "*true to nature*" na'r emynau a welir yn darlunio stormydd a gorthrymderau yr anialwch, yn enwedig felly ar yr ieuanc ar canol oed. Stormydd, temtasiynau, tristwch a galar sydd yn wir yn ein cyfarfod, ond ein dyletswydd yw edrych arnynt drwy lygad ffydd fel *stepping stones* at y disglair yn ein bywydau.

Y mae Llyfr newydd at wasanaeth y cysegr ar droed gennym yn awr ; gobeithio fod digon o ddiddordeb yn cael ei ddangos ynddo fel y bydd yn disgleirio o'n meddyliau goreu am Dduw a dyn, ac yn haul a tharian i'n harwain at y llawenydd nas gall y byd ei roddi na'i gymryd oddiarnom. Yn sicr ddigon y mae mwy o eisiau *rythm* a chynghanedd y bywyd iachus ar y byd heddiw nag erioed, a bydded i'r Gymanfa Ganu barhau i fod yn foddion i brysuro teyrnasiad hedd yn y galon unigol a chymdeithas yn gyffredinol fel bo heddwch yn teyrnasu rhwng dyn a dyn, a bendith Duw yn weladwy ar bob llaw.

Mae'n gweddi 'ni dros Gymru
Hir, hir, parhaed ei dydd,
Yn sanctaidd ac yn ddedwydd
Yn ogoneddus rydd ;
Bendithier a'i bendithio,
Boed ynddi hedd o hyd ;
Llawenydd yn ei phlasau
A'i holl aneddau i gyd. (R.J.J.).

Dolgerdd. D. JONES.

Y DEML.

YN yr amser boreaf y mae gennym hanes am dano yn yr Hen Destament nid oedd gan yr Israeliaid deml o waith dwylaw. Darllenir yn Genesis am Abraham a Jacob ac ereill o'r cyndeidiau yn codi allorau syml a diaddurn mewn gwahanol fannau yn yr awyr agored. Yr oedd eu syniad am angenion tymhorol eu duw yn gyffelyb i fesur i'w heiddó eu hunain. Yn ddiweddarach ar ol iddynt ddychwelyd o'r Aifft i Ganaan a'r arch yn eu meddiant yr oedd y sefyllfa wedi newid. Ceir fod yn Siloh, lle y gwasanaethai Eli fel offeiriad, ryw fath ar adeilad cymharol i'r hyn oedd gan y bobl at wasanaeth eu hunain. Addolent ac offryment aberth i Dduw mewn amryw fannau gwahanol ond Siloh fel cartref arch y cyfamod oedd y lle pwysicaf a mwyaf cysegredig.

Y deml Iddewig gyntaf yng ngwir ystyr y gair oedd yr un adeiladwyd gan Solomon ar fynydd Sion yn Jerusalem. Yr oedd Dafydd wedi paratoi'r ffordd yn flaenorol i hyn. Yr oedd wedi cymryd meddiant o'r ddinas ; yr oedd wedi dwyn yr arch yn ol o'i hir grwydro ym mhlith y Philistiaid ac wedi crynhoi defnyddiau at godi'r adeilad. Un o brif amcanion Solomon oedd ennill edmygedd y gwledydd o'i amgylch. Gan fod ganddynt hwy demlau a phlasau prydferth felly rhaid oedd cael adeiladau cyffelyb, a gwell os yn bosibl, yn Jerusalem. Am gyfnod ar ol hyn ceir fod gan yr Iddewon allorau o hyd mewn mannau ereill yn ogystal. Rhagorai Jerusalem ar Gilgal a Bethel yn bennaf gan mai yno yr oedd addolfan y brenin. Yn unol a'r cynllun fod olai yn gyffredinol yr amser hwnnw gwneid y deml i fyny o dair rhan. I'r gyntaf caniateid i bawb fyned yn ddiwahaniaeth. I'r ail nid oedd mynediad ond i'r ychydig dewisedig. Y rhan bwysicaf oedd y cysegr sanctaidd iolaf. Yno yr oedd yr arch fel

arwydd gweledig o bresenoldeb Duw. Cymerodd y datblygiad pwysig cyntaf le yn hanes y deml tua'r flwyddyn 621 C.C. Darganfuwyd o'i mewn lyfr yn cynnwys rhan o'r ddeddf. Yn ol dysgeidiaeth hwn ni ddylesid offrymu aberth i Dduw ond yn y deml yn Jerusalem yn unig. Cyn i'r drefn newydd gael ei chario allan yn gyflawn fodd bynnag cymerwyd y brif ddinas gan y Babiloniaid yn y flwyddyn 586 C.C. Rhoddodd hyn derfyn ar hanes y deml gyntaf yn gyfan gwbl.

Yn fuan ar ol dychweliad yr Iddewon o Babilon yn y flwyddyn 536 C.C. ymgymerwyd a'r gwaith o godi teml arall. Gelwir hon weithiau yn deml Zerubbabel. Dechreuwyd adeiladu yn y flwyddyn 520 a gorffenwyd bedair blynedd yn ddiweddarach. I'r olwg nid oedd hon lawer yn wahanol i'r deml gyntaf. Mewn ystyr arall ceir fod rhai cyfnewidiadau pwysig ynddi. Gosodwyd fwy o bwys yn awr nag o'r blaen ar yr hyn ystyrrid yn sanctaidd. Nid oedd brenin ar y wlad mwyach ac felly offrymid yr aberth dyddiol ar draul y bobl yn gyffredin. Rhoddwyd mwy o bwys i allanolion crefydd ac fel canlyniad safle uwch i'r llu offeiriaid a wasanaethai wrth yr allor. Yn olaf ceir fod y cysegr sancteiddiolaf yn awr yn wag. Y tebygolrwydd yw fod yr arch fel amryw o drysorau ereill wedi myned ar goll yn amser dinistr Jerusalem.

Y drydydd deml a'r olaf yw yr un gysylltir ag enw Herod. Er mwyn ceisio ennill parch yr Iddewon ymgymerodd Herod a'r gwaith o wneuthur y deml yn helaethach a mwy prydferth. Dechreuwyd ryw ugain mlynedd cyn geni Crist ond ni orffenwyd am gyfnod ar ol ei farw. Galwyd ei sylw un tro gan y disgyblion at yr adeilad. "Athraw," meddent "edrych pa ryw feini a pha fath adeiladau sydd yma." A'r Iesu a atebodd ac a ddywedodd, "A welwch chwi yr adeiladau mawrion hyn? ni edir maen ar faen, a'r nis datodir." A gwir oedd y broffwydoliaeth. Yn y flwyddyn 70 O.C. dinistriwyd y deml am y tro olaf gan y Rhufeiniaid. I'r Iddewon fel i ereill yn yr amser bore golygai'r deml yn fwyaf arbennig drigfan Duw. Addolent yno mae'n wir fel y gwnawn ni mewn eglwys neu gapel ond credent fod y Creawdwr yn bresennol yno ac yn enwedig yn y cysegr sancteiddiolaf mewn modd neilldnol. Yn ychwanegol at hyn edrychid ar y deml fel arwydd allanol o'u dyheadau mewnol. Yn olaf yr oedd i'r deml amcan ymarferol. Drwy offrymu aberth ar yr allor yn ddyddiol gobeithient sicrhau cymorth a ffafr Duw. Parhaodd y grefydd Iddewig ar ol dinistr y deml yn bennaf am ddau reswm. Yn gyntaf am fod y synagog eisioes wedi ennill lle pwysig ac ansigledig ym mywyd y genedl. Yn ail am fod y syniad am y deml fel trigfan Duw wedi ei godi i dir uwch. Bywyd, yn enwedig eiddo dyn, yw cartref gwirioneddol yr ysbryd. Ateb Iesu i'r Phariseaid ar un achlysur oedd hwn: "Yr ydwyf yn dywedyd i chwi, fod yma un mwy na'r deml." Dywedodd dro arall: "Dinistriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi." "Efe a ddywedasai am deml ei gorff." Y mae Paul yn eglurach eto os yn bosibl. Ysgrifennai feallai ar ol i'r deml yn Jerusalem gael ei dinistrio. "Oni wyddoch chwi" meddai "Mai teml Dduw ydych, a bod ysbryd Duw yn trigo ynoch? Os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnnw; canys sanctaidd yw teml Dduw, yr hon ydych chwi."

Ceir engraifft odidog yma o'r modd y mae'r allanol a'r materol yn rhoddi lle i'r mewnol a'r ysbrydol. Nid yw'r blodyn prydferthaf ar y goeden ond am dymhor. Ar ol iddo syrthio tyf yn ffrwyth nes dyfod i aeddfedrwydd.

J. Park Davies

HWNT I'R FFIN neu IN THE WILDS.

Droion yn blentyn hiraethais am ryddid y mynydd neu'r mor. Yr oedd ysbryd crwydro ynof. Hwyrach fod gwaed sipsi yn fy ngwythiennau. Un peth sy'n sicr fod yr hiraeth yn aros. Yn ystod oes y mae yna lu o gestyll wedi'u codi yn yr awyr. Nid ofer mo hyny ychwaith. Mewn myfyr tawel y mae'n ddiddorol rhoi cip ar ambell hen gastell. Cofiaf yn dda am *rywun* a minnau'n penderfynu mynd i Awstralia i gadw fferm o ddefaid. Hwyrach fod rhywun yn gofidio na buaswn wedi mynd, ta waeth. Cafodd fy mhartner ei ryddid, ond rhyddid gwahanol i ryddid yr eangderau didref. Yr wyf i yn gaeth hyd yn hyn ac ychydig ddefaid tan fy ngofal; yn eu plith ambell un gorniog a du hwyrach, pwy wyr? Yn ieuanc yr oeddwn yn hoff o Robinson Crusoe, ac yr oedd y menter yn cynhyrfu ngwaed. Ddoe eisteddwn tan bren afalau yn yr ardd. Nid oedd hwyl ar ddarllain. Yr oedd yr hin yn drymaidd a minnau'n gysglyd. Doe arogl y blodau ar yr awel. Disgynnai ambell biewnen ar flodau'r pys. Gwyddwn fod fy meddwl yn crwydro. Yr oedd rhyw dawelwch ymhobman. Ni tharfai dim y tangnefedd. Ymhen ennyd clywwn hwrr-hwrr. Gwrandewais. Nid oedd y meddwl yn gweithio. Ni wn eto pun a'i "Robin Gyrrwr" ai Aeroplen oedd uwch fy mhen. Yr oeddwn yn rhy ddiog i edrych. Nid oedd wahaniaeth gennyf.

Mynnir y medr ysbryd dyn adael ei gorff a chrwydro ar ei ben ei hun. Os yw'n wir, aeth fy ysbryd i ar hyd y psychic rods Hwnt i'r Ffin. Ar y llaw arall, os nad yw, fe'm cipiwyd mewn aeroplen i fro ddieithr. Waeth pun canys bum yno. Ni welais y fro erioed o'r blaen. Croesais baith heb son am dre. Gwlad ydoedd debig i Ddyfed tan yr hud. Ni welwn ddyn nac anifail Yr oeddwn Hwnt i'r ffin ac wedi glanio ys dywed y Sais "*In the Wilds.*"

Nid oedd lwybr troed yn unman, ond wedi ymlwybro'n ol a blaen yn hir, daeth arogl blodau fel arogl mwsg ar awel yr hwyr. Tremiais i'r pellder a thybiais fod yr haul yn machlud. Yr oedd yn rhy gynnar mae'n wir ond yr oeddwn mewn gwlad ddieithr. Tremiais eilwaith a chanfum y blodau porffor fflamdde. Mor debig oeddent i fflamau tan. Dynesais. Tybiwn fod y sipsiwn wedi crwydro allan o'r byd, hwnt i'r ffin i'r man tawel hwn lle ni cheid na phlismon na chyfraith gwlad. Edrychwn am y garafan a'r basgedi, ond yn ofer. Ni welwn undyn ond yr oeddwn yn berffaith *sicr* fod dynion yn byw yn y baradwys hon. Meddyliwn a mi fy hun a oedd rhywun mwy mentrus na'i gilydd wedi crwydro neu ddriftio yma ac wedi syrthio'n gaethwas i'w swyn. Awgrymir yn Llen Groeg am roddi cwyr yn y clust rhag clywed y *sirens* canys yr oedd eu cân cyn felysed a chân adar Rhiannon ers llawer dydd.

Buasai rhaid dallu y neb a'i gwelodd cyn ei hudo i'w gadael. Ai yma oedd cylch y Tylwyth Teg, neu'r hen gromlechau llwydion neu'r Cylch Cyfrin. O bell clywwn swn siarad—a siarad pell fel swn siarad ar y teliffon ambell waith. Dilynais y swn! Gwrandewais!

Tybed fy nod wedi crwydro ar ddamwain i Ogof Arthur neu i dir na-Nog, lle y mae pawb yn dragwyddol ieuanc. Ys dywedai Michael Comyn,—

"Y tir sy lanaf ar glawr y byd,
Y mwyaf ei hud dan haul y nen—
Y coed yn crynu dan flodau a ffrwyth,
A'r dail yn llwyth hyd y brig uwchben."

Yr oedd yn brydferth a thybiwn fy mod yn ol yng Ngardd Eden. Clywais droion am fynd yn ol at Natur ond ni feddyliais y cawn i weld neb yn byw ynghwmni natur ymhell o swn y byd—Hwnt i'r ffin—In the Wilds.

O'r diwedd canfum rywrai. Dywedir fod y brodorion yn yr Affrig bob amser yn mynnu gweld ymwelydd yn gyntaf ac y mae'n swil ddigon y deuant at ddyn gwyn. Tebig ydoedd yma. Rhyw lwyth yn byw gyda'i gilydd. Ni wn o ba genedl ond yr oeddent yn deall fy iaith. Ni wn ychwaith a'i rhywun o "Mars" y tybient fy mod ond yr oeddwn innau mewn pembleth amdanynt hwythau rhaid addef. Nid oedd un math ar grefydd yn blino rhyw lawer arnynt Ni ddywedaf eu bod yn ddigrefydd ychwaith Yr oeddent yn byw mor agos at Natur a Duw fel nad oedd galw am wasanaeth crefyddol. Yr oeddent mewn cymundeb parhaus a Duw. Lawer tro y tybiais eu bod ar ffin yr anwel ac y gwelent y "berth yn llosgi" a Duw yn cerdded ymhrydferthwch y fan. Yr oedd yn anodd eu cael i siarad am grefydd, ond cefais gip ar eu huchel wyl pan ddoe y Derwydd hwyrach i gynnal gwasanaeth dan gysgod hen dderwen lydanfrig, a hwythau o'u gylch a phobun yn ysmygu. Nid wyf yn sicr chwaith nad oedd y cyfarfod yn *lively*, oherwydd yr oedd pob un yn hawlio croesholi'r pregethwr. Rhyw beth yn debig yr oedd ellid tybio i'r Question Time yn Nhy'r Cyffredin, neu Hyde Park ar hwyr Sul. Ni chefais i mo'r fraint i fod yno. Hwyrach mai cudd ydoedd tebig i'r aberthu gynt.

Yr oeddent yn gynefin a gweithio a lliwiai hyn eu crefydd. Ni cheir *substitute* ym myd gwaith na chrefydd o ran hynny. "Yr hyn a hauo dyn hynny hefyd a fed efe." Dyna keynote eu crefydd. Nid gwlad y telynau aur mo nefoedd iddynt ond bywyd o ddedwyddwch ac o weithio. Nid rhywun i'w ofni mo Duw ond Tad a Rhoddwr pob rhodd ddaionus a phob dawn berffaith. Nid wyf yn sicr na wnae les i lawer o'n crefyddwyr cul i fynd Hwnt i'r Ffin ie Into the Wilds er cael gafael ar Dduw a chael syniad newydd am grefydd. Yr oedd y wlad oddiamgylch fel Beibl arall Duw ac nid oedd pob blodeuyn a llwyn a llannerch ond adnodau yn son am brydferthwch a chariad Duw. Cenid ei foliant o bob coedlan ac o galon fwy gonest na'r un a geir mewn Cor Mawr. Gyda'r nos, a'r tawelwch o'n hamgylch yr oedd pob enaid yn gweddio, ie, mwy na hynny, yr oedd pob enaid gyda Duw. Llifai'r tangnefedd i fewn i'r galon. Trigai'r llwyth brodorol hwn gyda'i gilydd ac yr oedd eu coelbren wedi syrthio mewn lleoedd hyfryd. Doe rhyw ddameg ar ddameg i'r golwg yn barhaus. Gweld un o'r llwyth yn chwynnu'i ardd ac yn ei theimlo hi yn haws i adael y chwyn ar ol a thynnu'r llysiau a meddyliwn a mi fy hun, ai ni buasai'n haws tynnu'r gweithredoedd da o lawer bywyd gan adael y chwyn yn dew ar ol.

Mor ddiddorol oedd gweld yr olwg olau ar fywyd heb yr un amau na phetruso. Y mae Frazer yn ei "Golden Bough" wedi crwydro mor a thir er gweld hen arferion ond rywsut nid oedd y baradwys fach hon yn hysbys iddo—

Yma cae esboniad ar yr hiraeth sy'nghalon dyn ac am ei ddedwyddyd mewn cymundeb a'r anwel-edig. Ni fedrai amheuwr berthyn i'r llwyth—yr oeddent yn byw mewn llannerch rhy brydferth ac yn rhy agos at Dduw—ond yma ni wel pobun mohonno oherwydd fod gormod o ddail ar y llwyni.

Ni roir ei enw ar unrhyw fap—y mae fel ynys unig ymhell ond os ydych am adnabod eich hun a Duw yn well, ac am gael awr dawel i synfyfyrio ar fywyd a thragwyddoldeb ewch fel finnau Hwnt i'r Ffin ie "Into the Wilds."

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Llywydd - Parch. D. CONWIL EVANS, Ciliau.

— CYNHELIR —

Cyfarfodydd ✵ Blynyddol

Y GYMDEITHAS YN

LLWYNRHYDOWEN

AR DDYDDIAU

MAWRTH a MERCHER, GORFFENAF 27 a 28, 1926.

Nos Fawrth am 7 o'r gloch.—Dechreuir y gwasanaeth gan y Parch. T. A. Thomas, a phregethir gan y Parchn. J. D. Jones, B.A., ac E. R. Dennis.

Bore Mercher am 9.—Cynhelir Pwyllgor y Gymdeithas.

Bore Mercher am 10 30.—Dechreuir y gwasanaeth gan y Parch. D. G. Rees; yna ceir Anerchiad y Llywydd.

Prynhawn Mercher am 2.—Dechreuir y gwasanaeth gan y Parch. Lewis Williams. Cyflwynir y Cwidd hwn i ddathlu Dau-canmlwyddiant yr achos yn y lle, ac i gofio y "Troad Allan" yn 1876. Siaredir gan y Parchn. George Eyre Evans; Simon Jones, B.A.,; D. Evans; T. A. Thomas, a D. G. Rees.

Nos Fercher am 6.—Dechreuir y gwasanaeth gan y Parch. E. R. Dennis, a phregethir gan y Parchn. Simon Jones, B.A., a H. H. C. Jones.

Nodiadau.—Gan fod y Cyfarfodydd hyn yn rhai arbennig iawn yn hanes cynulleidfa Llwynrhydowen, ac, o ran hynny, yn hanes Undodiaeth yng Nghymru, hyderwn y daw y ffyddloniaid yn llu iddynt Ceisied y cyfeillion o Forgannwg gyrraedd Pencader yn gynnar nawn Mawrth fel ag i ddal modur gerbyd y G.W.R. i Bontsian.

Gohebed pawb sydd am lety yn brydlon a

E. O. JENKINS, Llwynmarles, Llandysul.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandysul.

ARHOLIAD.

Rhyw drigain a dau oedd nifer yr ymgeiswyr yn yr Arholiad ysgrifenedig, a'r oll ohonynt yn Safon II a III. Nid ymgeisiodd neb yn Safon IV. Ni ellir dweyd fod hyn yn foddhaol iawn.

Ar y cyfan gwnaeth yr ymgeiswyr yn weddol dda, ond amlwg yw fod rhai o'r ysgolion wedi llafurio yn fwy dyfal nâ'r lleill. Fel cyfangorff, yr Ysgol oreu o ddigon yw Ciliau Aeron, —pedwar ymgeisydd wedi ennill anrhydedd; hefyd gwnaeth y ddau ymgeisydd o Rydygwin, un o Capelyfadfa, a'r ddwy o Gaeronnen yn rhagorol.O'r ysgolion eraill daeth rhai papurau da a rhai digon cyffredin. Teilynga ymgeiswyr Capelybryn a Brondeifi air o glod am lendid eu gwaith.

Bai llawer o'r ymgeiswyr yw fod eu hatebion yn rhy fyr a swta. Mewn arholiad llafaredig rhaid i'r atebion o angenrheidrwydd fod yn fyr, ond mewn arholiad ysgrifenedig disgwylir atebion llawn a threfnus. Ar y llaw arall troseddodd rhai o'r ymgeiswyr drwy ysgrifennu pethau nad oedd yr Arholwr wedi gofyn am danynt.

Efallai y byddai ychydig o sylwadau o gynhorthwy i'r ymgeiswyr ar ryw achlysur dyfodol.

1.—Y peth cyntaf yw astudio'r Maes Llafur yn drwyadl a dysgu'r ffeithiau ar y cof. Ni ellir ateb gofyniadau heb wybod y ffeithiau. Nid oedd achos i un ymgeisydd eleni deimlo unrhyw anhawster os oedd y penodau gosodedig ar ei gof.

2.—Ceisier deall ystyr y gofyniad; yna galwer y ffeithiau perthynasol i gof a gosoder hwy yn drefnus a chryno ar y papur.

3.—Y mae'n bwysig iawn i bob ymgeisydd i edrych dros yr atebion ar ol ei hysgrifennu a chywiro gwallau. Weithiau, drwy frys, gadewir allan air bychan sydd yn anhebgorol, a'r canlyniad yw fod yr ateb yn hollol groes i'r hyn a amcanai yr ymgeisydd iddo fod.

Credwn fod y gofyniadau eleni yn hollol deg, ac yn brawf trwyadl o wybodaeth yr ymgeiswyr o'r "Maes Llafur." Nid oedd y Maes yn helaeth, a dim ond y rhai heb ymroddi i'r gwaith a ddywedant fod y gofyniadau yn rhy galed.

Ffurfiwyd rhai o'r gofyniadau i gwrdd ag angenrheidiau y byr eu hanadl a'u gwybodaeth, eraill i roddi cyfleustra i'r rhai oedd yn gwybod eu gwaith yn dda. Wrth ofyn barn yr ymgeiswyr ar allu a chymeriad Paul rhoddwyd cyfle iddynt i ymresymu ar y ffeithiau perthynol iddo yn y Maes Llafur. Yn y penodau gosodedig daw llawer o brif elfennau ei gymeriad i'r golwg yn glir.

Ceisiwyd yn ofalus a chydwybodol i ddosbarthu'r ymgeiswyr yn ol eu teilyngdod. Yr oedd rhai ohonynt ar y ffin: ar y cyfan aeth mantais yr amheuaeth yn eu ffafr; felly y mae cryn wahaniaeth rhwng y goreu a'r gwaethaf ymhob dosbarth. Y mae terfynau i garedigrwydd arholydd ac am hynny bu raid iddo i wrthod tystysgrif i un neu ddau ymgeisydd.

Nid gwaith hawdd oedd penderfynu pwy deilyngai'r bathodyn ymhob dosbarth. Yn Safon II yr oedd tri o'r ymgeiswyr ychydig ar y blaen i'r gweddill sef—J. Eveline Davies, Ciliau iau Aeron; Nellie Lloyd, Rhydygwin a Thomas Eilir Wynne Evans, Capelygroes. Y mae Thomas Eilir Wynne Evans ychydig yn fwy meistrolgar yn ei arddull na'r ddwy arall, ac wedi ateb y gofyniadau yn drefnus ac i'r pwynt. Y mae'n rhagori hefyd yn ei ramadeg. Er nad yw yn rhagori llawer yn ei wybodaeth ar y ddwy arall try'r ystyriaethau hyn y fantol yn ei ffafr, ac felly ei eiddo ef yw'r bathodyn. Daw Nellie Lloyd, Rhydygwin yn ail ac yn agos iawn iddo, a J. Eveline Davies, geneth ddeg oed o Giliau Aeron, yn drydedd,—y mae ei hatebion yn glod mawr iddi.

Yn Safon III y mae Dinah Davies, Caeronnen a Mary Jones, Capelyfadfa ychydig yn well na'r rhelyw. Y mae'n amlwg fod Dinah Davies

wedi ymroddi i'r gwaith, nid arwynebol yw ei gwybodaeth. Tuedda i fanylu ac esbonio, lle nad oes galw am hynny. Gwell fyddai iddi ateb yn fwy cryno ac i'r pwynt ac ateb ychwaneg o'r gofyniadau. Er hyn, y mae llawer o deilyngdod yn ei gwaith. Atebodd Mary Jones ychwaneg o'r gofyniadau ac y mae ei hatebion yn lled dda, ac yn fwy cyfrodedd ar hyd y Maes Llafur: felly ei heiddo hi yw'r bathodyn yn Safon III.

Dymunwn ddiolch i'r ymgeiswyr am eu gwaith, a llongyfarch pawb sydd wedi cyrraedd safle uchel yn yr Arholiad. Credwn fod yr Arholiad yn werthfawr ar lawer ystyr. Y mae'n symbyliad i gasglu gwybodaeth werthfawr ac hefyd yn ymarferiad i draethu y wybodaeth honno yn glir a threfnus.

J. Islan Jones.

ARHOLIAD MAWRTH 27, 1926.

YMGEISWYR LLWYDDIANNUS.

Safon I dan 9 oed (*Llafaredig*).

ALLTYBLACA. Dosbarth I. Dilys Rees; Violet Richards; Cyril Rees Price; J. Hywel Davies.

BRONDEIFI. Dosbarth I. John Davy Davies; Dilys Aerwen Davies; M. Elizabeth Davies; D. D. Rees Evans; Sarah Anne Evans; Rosa Jones.

CAERONNEN. Dosbarth I. Ray Davies.

CAPELYGROES. Dosbarth I. Vincent Evans; Hannah Morgans; Idwal Jones; Gwennie Thomas.

CAPELYFADFA. Dosbarth I. Betty Evans; Mary Hannah Evans; Maggie Elizabeth Thomas.

CAPELYBRYN. Dosbarth I. H. Gwladys Davies; Sarah Ena Davies; H. Tegwen Davies; Vera Davies; D. Henry Davies; David Jenkins; Margaret Mary Jones; Caroline Pugh; Gwendoline Sarah Thomas.

CILIAU AERON. Dosbarth I. Mair Davies; Mary Catheline Davies; Mabel Jones; Thomas Tyssul Davies; Jack Jones; Joseph Pugh.

CRIBYN. Dosbarth I. Sally Jenkins; Rachel Howells; Aeron Davies; David Davies; Tommy Evans; Mary Evans; Peggy Jones; Rhys Howells; Devereaux Rees.

CWMSYCHBANT. Dosbarth I. E. H. Davies; M. E. E. Evans; W. Morris Davies; J. C. Jenkins; T. Abel Jones; Sally Lloyd; Ray Lloyd.

LLWYNRHYDOWEN. Dosbarth I. Evan Thomas Davies; Tommy Dudley; John Daniel Evans; Cairo Jenkins; Jack Evans.

PANTYDEFAID. Dosbarth I. Ray Davies; Davi Tom Evans.

RHYDYGWIN. Dosbarth I. Mary Davies; Mary Aerona Davies; Evan David Davies; Thomas Jonathan Davies; Thomas Davies; Joshua Davies; Bessie Lloyd; Elizabeth C. Evans; Iris Myfanwy Evans.

Safon II dan 12 oed (*Ysgrifenedig*).

Dosbarth I. (*Anrhydedd*). Thomas Eilir Wynne Evans, Capelygroes (*Bathodyn*); Nellie Lloyd ,Rhydygwin; Jane Eveline Davies, Ciliau.

Dosbarth I. Mary Olwen Davies, Brondeifi; Daff Davies, Llwynrhydowen; Daniel Verdun Davies, Alltyblaca; Bessie Jane Davies, Alltyblaca; John Elwyn Davies, Alltyblaca; Hannah Evans, Llwynrhydowen; Jack Evans, Graig; Jessie E. Evans, Graig; Bet Evans, Pantydefaid; Molly

Jenkins, Capelybryn ; William James, Graig ; Sally Lewis, Llwynrhydowen ; Sarah Gwladys Pugh, Capelybryn ; Bertie Rees, Alltyblaca ; Meredith Thomas, Capelygroes.

Dosbarth II. Noel Davies, Graig ; Ajah Margaret Evans, Graig ; Sarah Anne Evans, Pantydefaid ; Daniel Harries, Cribyn ; Lewis Herbert, Cribyn ; Joshua Howells, Cribyn ; Owen Lloyd Jones, Capelygroes ; Bronwen Williams, Cribyn.

Dosbarth III. John Lewis Evans, Alltyblaca.

Safon III dan 15 oed (*Ysgrifenedig*).

Dosbarth I (*Anrhydedd*). Mary Jones, Capelyfadfa (*Bathodyn*) ; Dinah Davies, Caeronnen Lizzie Davies, Caeronnen ; Nancy Davies, Capelybryn ; Bessie Davies, Ciliau ; David J. Davies, Rhydygwin ; Hannah Jones, Capelybryn ; John Jones, Capelybryn ; Nellie Jones, Ciliau ; Aerona Lewis, Ciliau ; Evan Leonard Pugh, Capelybryn ; Betty Williams, Llwynrhydowen ; May Williams, Llwynrhydowen.

Dosbarth I. Mary Anne Davies, Alltyblaca ; Eiluned Davies, Brondeifi ; Sally Davies, Brondeifi ; Elizabeth Megan Davies, Brondeifi ; Hannah Mary Dudley, Llwynrhydowen ; Evan Tom Evans, Cwmsychbant ; Rachel E. Griffiths, Alltyblaca ; Sarah Ann Jones, Graig ; David Jones, Brondeifi ; Oliver Jones, Llwynrhydowen ; Sarah Anne Morgans, Capelybryn ; Elizabeth Rees, Cwmsychbant ; Sarah Mary Thomas, Pantydefaid ; Howell Thomas, Capelygroes ;

Dosbarth II. Sally Davies, Cribyn ; Hettie Evans, Pantydefaid ; Griffith Jones, Capelygroes ; Elsie Price, Alltyblaca ; E. Llewelyn Rees, Cribyn ; Rees Thomas Williams, Cribyn.

Safon II (*Arholiad Llafaredig*).

Dosbarth I. Alfred Brown, Capelyfadfa ; Jenkin Garfield Brown, Capelyfadfa ; John Davies, Llwynrhydowen ; Evan John Evans, Llwynrhydowen ; Mally Evans, Llwynrhydowen ; David James Jones, Cwmsychbant ; John Elias Jones, Cwmsychbant ; Jenkin Jones, Llwynrhydowen ; Jennie Hughes, Cwmsychbant ; Thomas Frederick Evan Hughes, Caeronnen.

Tystysgrif—Bertie Lewis, Capelyfadfa.

Safon II. (*Llafaredig*).

Dosbarth I. Edwin Brown, Capelyfadfa ; Willie Brown, Capelyfadfa ; Frances Ellen Davies, Capelyfadfa ; Howard Davies, Capelycwm ; Edgar Evans, Capelycwm ; David Evans, Capelycwm.

Tystysgrif—Hetty Evans, Capelyfadfa.

Diolch yn fawr i'r Arolygwyr am eu gwaith. Danfoned yr Ysgolion eu cyfraniadau arferol i'r Trysorydd—D. Cledlyn Davies, Cwrtnewydd—cyn gynted ag y bo modd.

D. C. Evans, *Ysgrifennydd.*

Y GYMANFA GANU.

" 'Tis God gives skill,
But not without men's hands: He could not make
Antonio Stradivari's violins
Without Antonio."

Hwyrach mai nid myfi a minnau yn Llanbedr a ddylasai ddywedyd hynny, ond credaf nad oes fan cyfarfod i'n cylch yn Sir Aberteifi tebig iddo. Amheued a amheuo, yn Llanbedr bob tro y cyrhaedda'r Gymanfa Ganu ei huchelfan. Nid wyf gerddor na mab i gerddor. Nid oes ganu yn fy nheulu i ond rywsut medr y mwyaf diglust deimlo'r peth byw. O'r hyn leiaf fe'i teimlais yn y Gymanfa eleni, yr oedd a dywedyd y lleiaf yn Gymanfa hapus dros ben. Yr oedd tri pheth o'n tu; yr oedd yr hin yn deg a ffafriol, yr oedd y cor yn gryno yng nghyfarfod y bore ac ni chofiaf o'r blaen am gystal *attendance* yng nghyfarfod y bore, yr oedd y Capel cang yn orlawn ac yr oedd yr Arweinydd Gwilym R. Jones, Ysw., Arweinydd Cor Amanford yn ei hwyl a chanmolid ef am ei fedr. Arweiniwyd ynghyfarfod y bore, Cyfarfod y Plant gan y Parch. D. Evans, Y Cribyn a diddorol oedd gwrando ar blant y gwahanol ysgolion yn adrodd emynau'r plant cyn eu canu. Y llywydd oedd Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybyther a thraddododd araith fer a hapus gan apelio am gydweithrediad. Llanwodd y gadair mewn ffordd ddiymhongar a gwrandawai'r dorf yn astud ar ei hapel garedig dros ganiadaeth y cysegr. Heb un petrusder, " melys ydyw canu'r plant." Yng-hyfarfod y prynhawn, dechreuwyd gan y Parch. D. G. Rees, Trebanos, a da oedd gennym ei weled yn arwain ei fintai ffyddlon i'r Gymanfa. Llywyddwyd gan Mr. D. Jones, Dolgerdd a thraddododd araith rymus a welir yn y Rhifyn hwn. Canwyd ddwy Anthem " Ty Fy Nhad " a " Moeswch i'r Arglwydd " a chanodd Mrs. Evans, Tregroes unawd yn swynol dros ben.

Dechreuwyd Cyfarfod yr Hwyr gan Weinidog Brondeifi a llywyddwyd gan Mr. Timothy Richards, Ardwyn a datganodd deimlad a pharodrwydd eglwys Soar wrth roddi benthyg y Capel hardd. Credaf fod y canu wedi cyrraedd ei uchelfan yng nghyfarfod yr hwyr ac yr oedd arddeliad ar yr anthemau a'r tonau. Siaradodd Y Parch Tom Davies, Horeb yn hapus dros ben ac yr oedd y gynulleidfa yn mwynhau'i eiriau. Talwyd diolch i Eglwys Soar a *chydymdeimlad* y Cyfundeb a hi oherwydd colli ohoni'i gweinidog parchus y diweddar Barch. Evan Evans er pan fu'r gymanfa yma o'r blaen mewn ffordd seml a naturiol gan Gadeirydd y Pwyllgor—Mr. T. G. Thomas, Talgarreg ac eiliwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Diolchwyd i'r Arweinydd am ei fedr a'i ofal, i Mr. R. Howells, Aberdar am ganu'r organ, ac i bawb a fu'n help i wneuthur y Gymanfa'n gymaint llwyddiant.

Ni wn i mo barn y cantorion am y Gymanfa. Ni chymharaf mohoni a'r cymanfeydd a fu, ond yr oedd yn galondid teimlo fod ysbryd y gân yn fyw ac fel yr awgrymwyd gobeithio y medrir dal yr *harmoni* a'i dros-glwyddo i fywyd Cymdeithas. Ni ddywedaf ond profiad fy nghalon a hwnnw'n brofiad gonest,—

" Da i mi oedd cael bod yno."

PRIODAS.

Dydd Mawrth, Mehefin 8, yng Nghapel Undodiaid Abertawe, o flaen y Cofrestrydd a'r Parch. D. G. Rees, Trebanos, priodwyd Miss Hannah Lewis, Tynycae, Alltwen a Mr. Eddie Hudson, Lloyd Street, Trebanos.

CAERONNEN.

Cynhaliwyd Cyrddau arbennig yn hanes hen eglwys Caeronnen ar nawn a hwyr Mercher, Mehefin 23, 1926 ar ddiwrnod o haf ynghanol glaw. Yr oedd y Capel wedi'i adnewyddu a chredaf ei bod yn farn gyffredin fod y gynulleidfa fechan wedi gwneuthur yn rhagorol. Edrych y capel fel capel newydd ac nid oes yn aros o'r hen ond y pedair wal a'r tô. I'r mwyafrif mawr yr oedd y capel wedi croesi mynydd y gweddnewid i bob ystyr ymarferol. Yr oedd y Cyfarfodydd yn gyfarfodydd hapus dros ben, pawb yn eu hwyliau goreu a rhyw ysbryd gwerth ei ddal megis yn awyrgylch y Capel. Y Sul cyn hyn, yr oedd yn Sul Cymundeb cyntaf yn y Capel newydd a chafodd y gweinidog y fraint o dderbyn pump aelod newydd i'r gynulleidfa fach, a defnyddiwyd y llestri cymundeb newydd "*Electro Plated Silver Individual Communion Set.*" Rhodd Ellen a Margaretta a John Davies, Aeron House, Llanbedr i Gapel Caeronnen er cof am deulu Rhydderchlwyd." Talodd yr eglwys ei diolch gwresocaf i'r teulu y sydd wedi bod yn nodded i'r achos ar hyd y blynyddoedd. Ar y pulpud newydd yr oedd "*brass reading stand*" rhodd y chwiorydd o'r Hendryd gynt ac yn crogi o'r nenfwd yr oedd "*beautiful brass lamp*" i oleuo'r Capel Newydd, rhodd Mr. a Mrs. Howells, Y Caerau. Yma hefyd yr oedd Bwrdd Cymun newydd wedi'i daenu a'r cyfan yn rhodd brydferth un o'r aelodau newydd T. F. Evan Hughes o Faesymeillion, a "chadeiriau deri" rhoddion plant Llwynifan, ac y mae'n aros addewid am gadair hardd i'r pulpud a lampau ar y pwlpud.

Dechreuwyd y Cyfarfod yn y prynhawn gan y Parch. Lewis Williams a phregethwyd yn rymus ac effeithiol dros ben gan yr Hybarch R. Cribyn Jones a maentumid na chlywyd mohono erioed yn gryfach ac yn fwy ffres.

Rhoes y Gweinidog Hanes Anghydffurfiaeth yng Nghellan, rhamant a thragedi crefydd am 250 o flynyddoedd mewn 25 munud. Yn yr hwyr dechreuwyd gan y Parch. J. D. Jones, Cellan a phregethwyd gan ddau o blant yr eglwys—Y Parch. J. D. Jones, B.A., Pontypridd a'r Parch. D. Cellan Evans, Northampton.

Ni chofiaf am gyrddau mwy hapus ac yn goron ar y cyfan y mae'r Capel yn ddi-ddyled ac nid yw'n gofyn ond ymdrech ddiflin a ffyddlondeb i egwyddorion cyn y bydd Caeronnen eto'n nerth yn y tir fel cynt.

AT Y GOHEBWYR.

A.O.J.—Gofynasoch i mi yn Rhifyn Ionor am y Llyfr Emynau a Thonau Newydd ond ni fedrwn mo'ch ateb. Y mae gennyf weledigaeth glirach yn awr a chredaf y *medrid* ei gael allan eleni. Y mae'r Pwyllgor wedi gorffen y gwaith cystal a bydd yn barod i'w gyflwyno i'r Cyfarfodydd Blynyddol fel yn barod i'r Wasg. Y cwestiwn mwyaf pigog yn awr yw y gofynnir am dano yn y Ddau Nodiant. Y mae'r Hen Nodiant yn disodli'r llall gyda'r do ieuanc ond rhaid bwrw'r draul. Caiff yr eglwysi gyfle i draethu'u barn.

H.D.—Y mae adroddiad yr Arholwr yn y Rhifyn hwn fel y cewch a ofynech. Y mae'n eithaf gwir i ni basio penderfyniad, hyd yr wyf yn cofio, yn y Cwrdd Chwarter parthed Maes Llafur y flwyddyn nesaf. Addewais yr adeg honno ei gyhoeddi'n yr Ymofynnydd. Ni wn i yn y byd lle y gorwedd y bai. Gwyddoch pwy yw'r Ysgrifennydd a'r ddau apwyntiwyd a hwyrach y cewch gyfle yn y "Llwyn" i ofyn y rheswm Paham? Ni wn i am yr un,

CYMANFA GANU SIR FORGANWC.

Mr. Golygydd,—

Maddeuweh i mi am drethu ychydig yn rhagor ar eich gofod. Ni fwriedais ymdrin rhagor a'r mater uchod, ond gan fod Mr. Rees wedi ceisio codi ychydig ar y llen yn Yr Ymofynnydd am Fehefin, ac yn rhoi dau ofyniad ymgeisiaf ei ateb. Gofynnir ble mae'r "Ysbryd Hunanol" i'w ganfod. Y mae yn fwy eglur erbyn hyn mi gredaf. Cyfaddefir fod eglwys y Graig wedi trefnu perfformio yr Oratorio ar yr 11eg o fis Mawrth. Wel, ynteu, yr oeddem yn gwybod am drefnu cynnal y Gymanfa ar Lun y Pasc, Ebrill y 5ed. Rhwng y ddau ddyddiad y mae rhyw dair wythnos. Tybed, a ydyw hynyna yn ddigon o amser i waith y Gymanfa? Mae'r eglwysi eraill yr undeb wedi bod wrthi yn ddyfal drwy fisoedd y gaeaf. Beth glywwn flwyddyn ar ol blwyddyn ddydd y Gymanfa? Onid cwyno diffyg paratoad, ac anffyddlondeb i'r Ysgol Gân? Credaf fod mwy o ffyddlondeb yn ofynnol oddiwrthym fel enwad nac ereill oherwydd na chyd gyfarfyddwn ond ar ddydd y Gymanfa. Ond dyma i chwi un o eglwysi yr undeb yn bwriadu rhoi tair wythnos o sylw i'r gwaith. Tybed, ai nid prawf o "Hunanoldeb Gorchestol" yw hyn? Hyderaf y gwel eglwys y Graig yn y dyfodol, fod gwaith y Gymanfa yn teilyngu mwy na thair wythnos o ymbaratoad.

Yr ail ofyniad yw ynglyn a'm sylw am swn y geiniog. Gwall argraffu sy'n cyfrif am hyn. Meddyliais unwaith alw sylw ato yn y rhifyn diweddaf o'r Ymofynnydd ond nid felly y bu. Lled obeithiwn y buasai y frawddeg ddilynol yn egluro yr hyn a olygwn. Dyma fel y bwriedais i'r sylw fod—"Os nad oes llawer o swn y geiniog yn y Gymanfa, mae yna rywbeth sydd fwy o bwys o lawer, sef cymundeb a'r Tad Nefol ar sain cân. Gwn yn eithaf da fod yn rhaid cael y geiniog, ond nid dyna'r fendith fwyaf.

Cwynai Mr. Rees, ar ddechreu ei lith nad oeddwn yn hollol deg yn fy sylwadau am eglwys y Graig. Rhoddir awgrym ganddo am ddymuniad yr Ysgrifennydd i ohirio y Gymanfa am flwyddyn. Ar ol gwneud ymholiad yn y mater hwn credaf nad yw ef wedi bod yn hollol deg canys yr unig reswm hyd y gwn i dros beidio cynnal y Gymanfa oedd amharodrwydd eglwys y Graig.

Hyderaf yr a y pwyllgor ati o ddifrif eto i adennill y fraint a gollwyd eleni, ac y cawn ymuno yn y dyfodol mewn cymanfaoedd cystal, a hwyrach gwell nag a gawsom yn y gorffennol.

Hen Edmygydd.

MARWGOFION.

Mai 29, yn 83 oed, Eleanor (Nel) Jones, Clifton Hill, Pontshan, gan adael mab, mab-ynghyfraith a nifer o wyrion i gwyno ei cholli. Collodd ei phriod tua 44 o flynyddoedd yn ol a bu raid iddi ymladd brwydr bywyd drosti ei hun. Gofalwyd am dani ym mlynyddoedd ei llesgedd gan wyrion iddi a drigai yn y ty nesaf. Bydd Pontshan yn wacach hebddi canys yr oedd yn un o'r rhai hynaf yn yr ardal ac yn adnabyddus i gylch helaeth. Cafodd angladd parchus y dydd Mawrth dilynol pryd y'i cladwyd ym mynwent Llwynrhydowen ac y gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins. "Ti a gleddir mewn henaint teg."

Mai 29, yn sydyn iawn ar ol bod yn achwyn ychydig ddyddiau Mary, Thomas, Nymph House, Ceinewydd yn 73 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Thomas a Peggy, Cwarre, ger Pisgah, Talgarreg. Gadawodd i gwyno ei cholli ddau frawd, dwy chwaer a llawer o berthynasau ereill. Y dydd Mercher dilynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd yn y ty ac yn y capel gan Mr. Richards, gweinidog Maenygroes ac ar lan y bedd gan E. O. Jenkins. "Dygi hwynt ymaith megis a llifeiriant."

Gyda thristwch yr ydym yn cofnodi marwolaeth sydyn Miss Alice Llewelyn, 4, Mill Street, Trecynon, Aberdare, yn 36 oed. Nith ydoedd i Mrs. Llewelyn, Bwllfa House, Cwmdar. Dydd Sul, Mehefin 6 a hi yn yn paratoi i fynd i wasanaeth yr hwyr yn yr Hen Dy Cwrdd, bu farw yn hollol ddirybudd. Tarawyd yr ardal a thristwch o glywed am ei marwolaeth sydyn. Dynes dawel a llednais ydoedd, yn aelod ffyddlon yn yr Hen Dy Cwrdd ac yn un o'r chwiorydd mwyaf gweithgar yn yr eglwys. Colled i'r teulu, i'r capel ac i'r ardal fydd ei marwolaeth hi. Bu'r angladd dydd Iau, Mehefin 10, a chladdwyd ym mynwent eglwys Llanwonno. Gedy ar ei hol un brawd a thair o chwiorydd ac estynwn iddynt ein cydymdeimlad dwysaf yn eu gofid a'u hiraeth. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. E. R. Dennis ac yn yr Eglwys gan y Parch. T. E. Griffiths, B.A., R.D.

Dydd Mawrth, Mehefin 8, yn 80 mlwydd oed bu farw Benjamin Thomas o'r Pantnewydd, Pencarreg a gynt o'r Wernfraith gerllaw. Yr oedd wedi'i gaethiwo i'w wely yn rhannol ers wythnosau bellach a rhwydd canfod fod clefyd marwol wedi gafael ynddo ac ehedodd ymaith gan adael gweddw oedrannus ac un brawd yn gystuddiol, heb law perthynasau ereill ar ei ol. Dyn heddychlon a siriol ydoedd, gweithiwr diwyd a diymhongar a gwelir ei le'n wag ar yr aelwyd ac yn y gymydogaeth. Y dydd Sadwrn dilynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Brondeifi, y Parch. T. O. Williams, M.A. yn gwasanaethu gyda chynorthwy caredig y Parchedigion D. Jones, Caersalem yn y ty a D. Evans, Cribyn ar lan y bedd. Nerth a gaffo'r weddw i ddal tan y ddyrnod drom.

Dydd Llun, Mehefin 14, yn 67 mlwydd oed bu farw Stephen Webley Parry, Pantycerrig, Pencarreg. Tarawyd ef yn wael yn Llanbedr a bu farw yma ymhen ychydig ddyddiau. Yr oedd wedi ymladd brwydrau'i wlad a blynyddoedd yn ol wedi cerdded gyda'i deulu'n ffyddlon i Gapel ac Ysgol Sul, Brondeifi. Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol ym Mrondeifi, y gweinidog yn gwasanaethu. Gadawodd weddw a phlant a pherthynasau ar ei ol.

NODION YR EGLWYSI.

Dydd Mercher, Mehefin 2, rhoddwyd gwledd o de i Ysgol Sul a chynulleidfa Capelygroes gan Mr. a Mrs. Jones, Castell Elwyn, a'r Meistri Howells, Tower Hill, Pencarreg. Gwnaed darpariadau helaeth o bob math ar foeth-fwydydd, a daeth nifer anarferol o luosog ynghyd i gyfranogi o honynt. Drwg gan bawb i Mr. Jones, Y Castell fethu a bod yn bresennol oherwydd afiechyd. Teilynga'r wledd hon y lle blaenaf o ran llwyddiant o holl wleddoedd te llwyddiannus Capelygroes, a diolchwn yn wresog i'r ddau deulu am eu diddordeb yn yr achos. Yn yr hwyr caed cwrdd adloniadol, gyda'r Parch. L. Williams, Alltyplaca yn y gadair, a Mr. T. J. Jones, C.M., Llanwnen yn arwain, ac aed trwy raglen faith o adrodd a chanu. Arweiniwyd y partion lleol (fel arfer) gan Mr. D. Jones, Llanwnen, a chafodd help calonnog yr oll o'r cantorion ieuanc. Bu cyfeillion o Alltyplaca, ac ychydig o'r Cribyn mor garedig a rhoddi help sylweddol; a diolchwn iddynt am eu caredigrwydd. Cyfeiliwyd ar yr offeryn gan Miss Lilian Evans, Baily a Miss Price, Alltyplaca. Ynghwrs

y cyfarfod adroddwyd a chanwyd nifer luosog o folawdau i'r te; a chadarnhawyd y cyfan trwy i'r gynulleidfa roddi pleidlais wresog o ddiolch i'r rhoddwyr haelionus am eu caredigrwydd.

CYMANFA YSGOLION.—Cynhaliodd Ysgolion Sul Alltyblaca, Capelygroes, Brondeifi, a Chaeronnen eu cymanfa flynyddol yn Alltyblaca, dydd Mercher, Mai 19. Holwyd Ysgolion Brondeifi ac Alltyblaca gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Brondeifi; ac Ysgolion Capelygroes a Chaeronnen gan y Parch. D. Evans, Capelygroes. Holwyd y plant gan y Parch. L. Williams, Alltyblaca. Yr oedd yr Ysgolion yn ymddangos yn lluosocach eleni na'r blynyddau diweddaf. Hefyd gwelem arwyddion o lafur ar gyfer y dydd. Hyderwn y bydd i'r brwdfrydedd a amlygwyd gan aelodau y gwahanol Ysgolion barhau eto fel y byddo yr Ysgolion yn gyfryngau i addysgu llawer yng ngwirioneddau bywyd tragwyddol. Gwasanaethwyd wrth yr Organ gan Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybyther. Yn yr hwyr cynhaliwyd *Rehearsa'*. Arweiniwyd gan Mr. L. T. Thomas, Penarwel a chyfeiliwyd gan Miss Evans, L.L.C.M. Graigwen, Llanfihangel-Ystrad.

ABERYSTWYTH.—Mae'n arferiad gyda ni yng nghapel bach Heol Newydd i gael rhyw fath o gwrdd clebran unwaith y flwyddyn ar ol y gwasanaeth arferol. Eleni cafwyd hwn fore Sul y 30ain o Fai. Yn absenoldeb anorfod yr Ysgrifennydd darllenwyd ei adroddiad am y flwyddyn gan y Parch. G. Eyre Evans. Cyflwynodd y Trysorydd Mr. John Grindley, ei adroddiad yn bersonol. Roedd tôn y ddau yn obeithiol, a gellir dweyd yma fod gwedd weddol lewyrchus wedi bod ar yr achos bach yn ystod y flwyddyn. Penderfynwyd mabwysiadu'r "*Wayside Pulpit*," sydd ganddo ei neges i bawb ar sydd yn pasio a dysgu ei wersi i bawb sydd ganddynt lygaid i weled a meddwl i ystyried. Ail etholwyd y swyddogion a thalwyd y diolchiadau arferol.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Cafwyd prynhawn hapus iawn ar y mynydd y Llungwyn, sef adeg cynnal Gwyl De Flynyddol i ddeiliaid yr Ysgol Sul. Daeth tyrfa i fyny, er i'r hin droi'n wlyb yspaid, a mwynhawyd y danteithion a baratowyd gan Mrs. Cope; ac yr oedd y cyfan yn ardderchog iawn. Wedi'r te cafodd pawb gyfran o'r melysion. Diolchir yn garedig i Mr. David James, Trebanos, am ei rodd a'i ysbryd hael. Haedda pawb a fu'n gwneuthur yr wyl yn llwyddiant, ddiolchgarwch y gynulleidfa. Trefnwyd yr oll gan Ysgrifennydd yr Ysgol Sul—Mr. J. W. Bowen, Heol Newydd.

CYMANFA YSGOLION CYLCH LLANDYSUL.—Cynhaliwyd y Gymanfa eleni ym Mwlchyfadfa nawn a hwyr Sul, Mai 23. Yr oedd yr hin yn bopeth allesid ei ddymuno a daeth llu mawr ynghyd. Yr oedd y Gymanfa yn un o'r rhai goreu yr y'm wedi gael erioed. Holwyd y plant yn y prynhawn gan Mr. D. W. Jenkins o Bantdefaid a'r Ysgolion gan Mr. E. O. Jenkins oddiar Marc 6. Yn yr hwyr cafwyd dau bapur goddidog iawn ar "Pa fodd i wella'r Ysgol Sul." Y naill gan Miss Ray Jones, o Lwynrhydowen a'r llall gan Mr. D. W. Jenkins, o Bantydefaid. Yr oedd y ddau yn wir ragorol a ran gwneuthuriad a darlleniad. Gobeithio y gwnant ddwyn ffrwyth. Cafwyd hefyd anerchiadau — pryd dywedwyd pethau grymus—gan Mr. D. Jones, Dolgerdd; Mr. D. Lewis o Landysul; E. O. Jenkins a T. A. Thomas. Cyfarfod gwlithog oedd cyfarfod yr hwyr. Teimlwn yn ddiolchgar i Miss S. A. Jones o Ysgol y Graig am adrodd Salm i ddechreu cyfarfod y prynhawn: i Mr. L. T. Thomas, Penarwel am y modd deheuig yr arweiniodd y canu yn y ddau gwrdd ac i Mrs. Evans, Argoed am ei charedigrwydd yn cymryd at yr organ yn absenoldeb Miss Ellen Thomas, Green Grove yr hon fethodd fod yn bresennol yn herwydd afiechyd. Aed y Gymanfa rhagddi.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,

CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.

For Suits and Costumes to order from 50s.

—Mourning at Shortest Notice.—

. . . Satisfaction Guaranteed. . . .



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1850 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.